

## Ymgynghori â dysgwyr yng Ngholeg y Cymoedd

- Yn 2016-17, cydnabu'r Rheolwr TGD Strategol bod ymagwedd y Colegau at gael llais dysgwr o ran llwyddiant technolegau addysgol, ac arferion addysgu staff ar draws y Coleg, braidd yn gyfyngedig o ran yr Arolygon blynyddol/tymhorol o Ddysgwyr. Roedd hynny'n cynnwys tri chwestiwn cyffredinol ynghylch 'TG', WiFi a mynediad at adnoddau.
- Ychydig o gyfle a roddodd y tri chwestiwn hyn i fwrw ymlaen ag unrhyw newid ystyrlon i gyfeiriad strategaeth TG/TGCh y Coleg a datblygiad y cwricwlwm. Ar yr un pryd, cafodd y Rheolwr TGD Strategol y dasg o ddrafftio Gweledigaeth Ddigidol gan y Pennaeth blaenorol.
- Dangosodd ymchwil mai ychydig iawn oedd yn bodoli yn y sector AB yng Nghymru o ran 'adnodd' safonol i feincnodi boddhad dysgwyr, a chynnig unrhyw syniad o sut roedd y Coleg yn perfformio mewn cymhariaeth ag eraill yn y sector. Nid oedd llawer yn bodoli ychwaith o ran 'asesu ei sefyllfa' mewn perthynas â diffinio gweledigaeth newydd.
- Fodd bynnag, roedd Jisc wedi gweithredu rhaglen beilot ar draws AB ac AU yn gynharach y flwyddyn honno, sef 'Olrhain profiad digidol i fyfyrwyr 2016'. Roedd y canlyniadau yn cynnig dull o fodelu llinellau holi effeithiol.
- Felly, â fformat y profwyd ei fod yn llwyddiannus, wedi'i ddiwygio ychydig i sector AB ac iaith ein dysgwyr, lansiodd Traciwr Profiad Digidol Dysgwyr cyntaf Coleg y Cymoedd ym mis Rhagfyr 2016.
- Am y tro cyntaf, yn ogystal â holi dysgwyr am ddyfeisiau'r Coleg a mynediad WIFI, fe'u holwyd hefyd pa ddyfeisiau personol yr oeddent yn eu defnyddio, am argaeledd adnoddau dysgu ar-lein ac am ddeunyddiau cyrsiau. A wnaethant gydweithio ar-lein â'u cyfoedion, a oedd y Coleg yn gwneud digon i gynorthwyo i ddatblygu eu sgiliau digidol a'u diogelwch ar-lein, ac yn bwysicach fyth, beth ddylai'r Coleg ei Sefydlu, ei Atal a Pharhau i'w wneud i wella eu profiad dysgu?
- Yn ei flwyddyn gyntaf, ymatebodd dros 600 o ddysgwyr, a rhannwyd y canlyniad â Jisc i wella niferoedd eu hadnodd olrhain eu hunain, er nad oedd y Coleg wedi cymryd rhan yn y peilot yn ffurfiol.
- Ers 2016, mae'r Traciwr Profiad Digidol Dysgwyr wedi dod yn arolwg blynyddol â dros 1000 o ymatebion yn 2017-18, a 700 hyd yn hyn yn 2018-19.
- Yn 2017-18 cafodd y canlyniadau eu ffurfioli yn adroddiad gweledol ac argymhelliad allweddol yn seiliedig ar ddwy flynedd o ddata, a

dangosyddion ynghylch pellter a deithiwyd neu nas teithiwyd eu cyflwyno i Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Coleg. Roedd y meysydd allweddol yn canolbwyntio ar: Cynefino Dysgwyr, Dyfeisiau Symudol, WIFI, Cyflwyno Aseiniadau, Adnoddau ac Amserlennu, Adnoddau Digidol, Cyfryngau Cymdeithasol a Gallu Digidol.

- Roedd enghreifftiau o ganlyniadau'r broses hon yn cynnwys datblygu adnoddau a rhaglenni hunan-astudio ar-lein i wella darpariaeth Sgiliau Digidol, a mwy o staff addysgu a staff cymorth yn mynd ati i fabwysiadau Office 365 a thechnolegau yn y cwmwl.
  - Gan ddatblygu hyn ymhellach yn 2018-19, bydd canlyniadau'r Traciwr yn cael eu rhannu â Chynrychiolwyr Dysgwyr i nodi themâu allweddol a drafodir yn eu cynhadledd Llais y Dysgwr ym mis Mawrth 2019, a'r Canlyniadau Orlhain Dysgwyr sy'n cael eu cyflwyno gan y Dysgwyr i Dîm Rheoli'r Coleg.
-